



# Sul yr Hinsawdd



THE CHURCH  
OF ENGLAND  
Environment Programme

## Trefn gwasanaeth ar gyfer Sul yr Hinsawdd

Awgrymir yma deunydd y gellir ei gynnwys mewn Gwasanaeth y Gair.

### Paratoad

#### Cyfarchiad:

O Dduw, brysia i'n gwaredu.

**Pawb** O Arglwydd, prysura i'n cynorthwyo.

Anfon dy Ysbryd, O Arglwydd

**Pawb** ac adnewyddu wyneb y ddaear.

#### Gweddi mewn edifeirwch:

Dduw'r creawdwr, a wnaethost y nefoedd a'r ddaear,  
cydnabyddwn i ni fethu â byw mewn modd cyfrifol  
fel rhan o'th greadigaeth.

Rydym wedi cymryd yr hyn oeddem ei eisiau,  
heb ystyried y canlyniadau;  
rydym wedi gwastraffu a thaflu ymaith,  
heb hidio am y dyfodol.

Agor ein calonnau a'n meddyliau i weld arwyddion ein hamserau,  
i glywed ochneidio'r greadigaeth,  
fel y bydd i ni gefnu ar ein trachwant a'n diffyg gweledigaeth  
a gweld byd sydd yn cael ei greu o'r newydd drwy Iesu Grist ein Harglwydd,

**Pawb** Amen

#### Colect:

Dduw'r gogoniant,  
mae'r greadigaeth gyfan yn cyhoeddi rhyfeddod dy waith:  
atgyfnertha ynom y gallu i ryfeddu ac ymhyfrydu ynddi,  
fel y bydd moliant y nefoedd yn adleisio yn ein calonnau  
ac y treuliwn ein bywydau fel stiwardiaid effeithiol ar y ddaear,  
drwy Iesu Grist ein Harglwydd

**Pawb** Amen

### Litwrgi'r Gair

#### Pregeth:

Ar gyfer pregethau ar themâu yn ymwneud â'r greadigaeth yn seiliedig ar y llithiadur, gallwch edrych ar yr adran 'Pregethau' ar [dudalen adnoddau Sul yr Hinsawdd](#).

#### Ymrwymo i ofalu am y greadigaeth

'Tra bo'r holl greaduriaid yn sefyll yn ddisgwylgar, beth fydd canlyniad ein rhyddid?' (Thomas Traherne)

Wrth i'r greadigaeth gyfan ddisgwyl mewn hiraeth eiddgar am waredigaeth y ddynoliaeth, ymrwymwn o'r newydd i'r Duw a'n creodd, y Tad, ffynhonnell popeth sy'n bod, y Mab y gwneir popeth drwyddo, a'r Ysbryd Glân, rhoddwr bywyd, sydd yn adnewyddu wyneb y ddaear.

Safwn i gadarnhau ein hymrwymiad i ofalu'n ymarferol am greadigaeth Duw.

**Pawb** Arglwydd bywyd a'r un sy'n rhoi gobaith,  
ymrwymwn i ofalu am y greadigaeth,  
i leihau ein gwastraff,  
i fyw'n gynaliadwy,  
ac i werthfawrogi amrywiaeth gyfoethog bywyd.  
Bydded i'th ddoethineb ein tywys,  
fel y bydd i fywyd o bob math ffynnu  
a lleisio'n ffyddlon foliant y cread.

Bydded i ni fyw yn gyson â'r ymrwymiad a wnaethom heddiw.

**Pawb** Amen. Amen. Amen

## Gweddïau

### *Ymbiliau:*

YFallai y byddwch yn dymuno cynnwys y weddi hon dros gynhadledd COP26 ymhlith eich ymbiliau:

Dduw'r Creawdwr, rhoddwr bywyd,  
ti sy'n cynnal y ddaear ac yn cyfarwyddo'r cenhedloedd.  
Yn nyddiau argyfwng yr hinsawdd  
rho i ni glywed yn eglur  
ochneidio'r greadigaeth a llefain y tlodion;  
heria ni i newid ein ffordd o fyw;  
tywys ein harweinwyr i weithredu'n eofn;  
gwna dy Eglwys yn goelcerth gobaith;  
a meithrin ynom weledigaeth newydd  
o'th fwriadau di ar gyfer dy fyd;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,  
gan yr hwn ac er mwyn yr hwn y gwnaed popeth sydd yn bod,  
**Amen.**

## Diwedd glo

### *Y Fendith:*

Bydded i Dduw'r Ysbryd Glân,  
a fu'n ymsymud uwchlaw dyfroedd y creu  
ac a greodd y byd o'r gwacter,  
eich ffurfio ar ddelw Crist ac adnewyddu wyneb y ddaear.

**Pawb** Amen.